

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad ar Berfformiad 2020-21 – Chwarter Un
Cyfeirnod y Papur:	20-09-B10
Noddir y Papur Gan:	Clare Pillman
Cyflwynir y Papur Gan:	Y Tîm Gweithredol
Diben y papur	Craffu
Argymhelliad	<p>Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad CNC ar gyfer chwarter cyntaf 2020-21, gan roi ystyriaeth benodol i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Cynnydd o ran pob mesur ar y Dangosfwrdd Perfformiad a'r camau y mae CNC yn eu cymryd

Mater

- Mae'r adroddiad ar berfformiad hwn yn seiliedig ar y mesurau a'r targedau gwreiddiol a osodwyd ar ddechrau 2020-21, pan nad oedd effeithiau Covid-19 ond yn dechrau cael eu teimlo. Mae'n adlewyrchu'r sefyllfa yn unol â'r mesurau hyn ar ddiwedd mis Mehefin 2020. Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn nodi Dangosfwrdd Perfformiad cyntaf Cynllun Busnes eleni ar gyfer 1 Ebrill hyd at 30 Mehefin 2020. Mae adroddiad chwemisol ar y Rhaglen Cwsmeriaid wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Mae'r Cynllun Busnes a'r Dangosfwrdd Perfformiad, fel ei gilydd, yn cael eu hadolygu i adlewyrchu effaith Covid-19. Mae hyn yn destun papur ar wahân.

Cefndir

- Yr adroddiad ar ddangosfwrdd y Cynllun Busnes yw un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein darpariaeth.
- Lluniwyd yr adroddiad ar berfformiad (Atodiad 1) yn rhan o'r broses i baratoi Cynllun Busnes 2020-21 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a Phwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd.

4. Mae fformat yr adroddiad wedi'i newid yn sylweddol, ac mae'n cynnwys:
 - **Dangosfwrdd** sy'n darparu trosolwg o'r perfformiad o gymharu â mesurau 2020-21 wedi'u rhestru yn ôl Blaenoriaeth Strategol, fel y nodir yn y Cynllun Busnes
 - **Tabl o bynciau a blaenoriaethau strategol** i helpu i lywio trwy'r adroddiad
 - **Manylion ar gyfer pob pwnc** (yr is-benawdau o dan bob Blaenoriaeth Strategol yn y Cynllun Busnes) sy'n darparu trosolwg
 - **Manylion ar gyfer pob mesur** sy'n dangos y sefyllfa gyfredol a'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn – mae yna rhwng un a thri mesur penodol fesul pwnc.

Mae adroddiad cynnydd chwemisol ar y Rhaglen Cwsmeriaid i'w weld yn Atodiad 2.

5. Dyma'r adroddiad cyntaf ar ein Cynllun Busnes a'n Dangosfwrdd gwreiddiol ar gyfer 2020-21: mae'n cyfeirio at ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022.

Asesu

6. Roedd diwedd 2019-20 a chwarter cyntaf y flwyddyn hon yn ddigynsail – gydag effeithiau pandemig Covid-19 yn dilyn y llifogydd difrifol a gafwyd y gaeaf diwethaf. Mae hyn, yn anochel, wedi effeithio ar berfformiad yn y chwarter hwn, sy'n cael ei adlewyrchu'n arbennig gan y nifer o fesurau oren a choch.
7. Crynhoir ein perfformiad ar gyfer chwarter cyntaf 2020-21 isod:

	Chwarter 1 (1 Ebrill-30 Mehefin 2020)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf- 30 Medi 2020) Targedau/Cerrig milltir a adolygwyd ar gyfer Ch2 ymlaen	Chwarter 3 (1 Hydref-31 Rhagfyr 2020)	Diwedd Blwyddyn Disgwyliedig (hyd at 31 Mawrth 2021)
Gwyrdd	19			27
Oren	13			7
Coch	3			1
Cyfanswm	35			35

8. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad ar berfformiad, gan nodi'r canlynol:
 - Cyfyngwyd yn ddifrifol ar waith maes o ganlyniad i Covid-19, gan arwain at nifer o sgorau oren yn Ch1. Yn yr achosion hyn (e.e. gwaith mwynfeydd metel, dilysu ceisiadau am grantiau coetir Glastir), mae'r timau wedi anelu at weithio o bell a bwrw ymlaen â gwaith swyddfa lle bo hynny'n bosibl.
 - Mae llawer o'n gwaith yn dibynnu ar bartneriaid sydd wedi gorfod, yn gwbl briodol, ailgyfeirio eu gwaith o ganlyniad i Covid-19. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ein

gwaith gyda Llywodraeth Cymru mewn sawl maes, yn ogystal â'r asesiad ar gyfer Safon Aur Iechyd Corfforaethol.

- Yn gyffredin â sefydliadau eraill, mae ein staff wedi bod yn gweithio gartref lle bo hynny'n bosibl, ac, yn achos sawl un, roedd yn rhaid i hyn gyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu ac addysgu gartref.
9. Isod, rydym wedi amlygu'n fyr rai canfyddiadau o'r adroddiad hwn yn ôl Blaenoriaeth Strategol: gellir gweld y manylion yn yr adroddiad ei hun.

Ymateb i'r argyfwng hinsawdd

- Rhoddir sgôr **Oren** i'r gwaith o ddilysu ceisiadau am grant Creu Coetir Glastir. Gohiriwyd archwiliadau o safleoedd yn ystod y chwarter hwn, felly bu'r tîm yn canolbwyntio ar waith y gallant ei wneud o bell.
- Mae ein hadolygiad o stormydd y gaeaf wedi cael sgôr **Gwyrdd**, gyda'n hadroddiad ffeithiau bellach wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith o gynnal asedau perygl llifogydd mewn cyflwr penodol wedi cael sgôr **Oren**: cynyddodd y nifer sydd o dan y cyflwr gofynnol o ganlyniad i effaith stormydd mis Chwefror. Rydym yn symud ymlaen â'r atgyweiriadau lle bynnag y bo'n bosibl.

Ymateb i'r argyfwng natur

- Mae statws CNC o ran Safon Sicrwydd Coetir y Deyrnas Unedig (UKWAS) wedi cael sgôr **Oren**. Rydym yn paratoi staff a systemau ar gyfer archwiliad 2020, a bydd gennym ragor o gynllunwyr Adnodd Coedwig mewn swyddi yn y chwarter nesaf.
- Mae ein gwaith i weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNP) wedi cael sgôr **Gwyrdd** ac rydym ar y blaen o ran yr amserlen. Fodd bynnag, mae'r gwaith ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPA) wedi cael sgôr **Oren**, a hynny am fod cyfyngiadau Covid-19 wedi atal gwaith archwilio'r gwanwyn rhag cael ei wneud.
- Mae ein mesurau ar gyfer nifer yr ymchwiliadau o ran y Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr (WFD) a gwblhawyd wedi cael sgôr **Coch**. Er bos sawl un yn agos at gael ei gwblhau, mae 26 ohonynt wedi'u cwblhau'n llwyr y chwarter hwn. Bu hyn yn destun 'dadansoddiad dwfn' gyda'r Bwrdd.

Datblygu a defnyddio ein tystiolaeth gyda phartneriaid i eirioli dros Reolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol, a'i chyflawni

- Mae'r broses o gyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2 wedi cael sgôr **Oren**, a hynny o ganlyniad i argaeledd staff allweddol a'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, bydd SoNaRR 2020 yn cael ei gyhoeddi fesul cam rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021.
- Mae'r defnydd o Ddatganiadau Ardal yn CNC a thrwy weithio ar y cyd wedi cael sgôr **Gwyrdd**. Rydym yn gweithio i ddefnyddio Datganiadau Ardal yn sail i'n gwaith ein hunain a gwaith pobl eraill. Yn y chwarter nesaf, byddwn yn datblygu astudiaethau achos ac yn gwella'r modd yr ydym yn cofnodi ac yn rhannu dysgu.

Datblygu CNC i fod yn sefydliad rhagorol sy'n gwasanaethu cymunedau Cymru

- Mae'r gwaith o Asesu Digwyddiadau (cyn pen awr) wedi cael sgôr **Gwyrdd** ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r gwaith o ymateb i ddigwyddiadau 'categori uchel' (cyn pen pedair awr) wedi cael sgôr **Oren** yn bennaf o ganlyniad i faterion cofnodi. Bu hyn yn destun 'dadansoddiad dwfn' gyda'r Bwrdd.
- Mae ein gwaith i gyflawni asesiad Safon Aur Iechyd Corfforaethol erbyn mis Mawrth 2021 wedi cael sgôr **Gwyrdd** ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i broses asesu o ganlyniad i Covid-19, nad yw o dan ein rheolaeth. Oherwydd hyn, rydym wedi rhagweld sgôr **Coch** ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae nifer y damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd i gyflogwyr, a nifer y digwyddiadau a arweiniodd at golli amser wedi cael sgôr **Coch**. **Fodd bynnag, yr unig reswm dros hyn yw bod llai na'r disgwyl wedi digwydd am fod gwaith maes wedi'i gyfyngu o ganlyniad i Covid-19.** Rydym yn edrych ar dueddiadau o flwyddyn i flwyddyn: byddwn yn parhau i adrodd ar ffigurau gwirioneddol trwy gydol y flwyddyn.
- Rydym wedi oedi cyhoeddi ein Strategaeth Fasnachol fel bod gwaith Adfer Gwyrdd yn gallu cael ei gynnwys, a bod ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Gwasanaethau Masnachol (a fydd yn dechrau ym mis Medi) yn gallu cael mewnbwn: Mae hyn yn egluro'r sgôr **Oren**. Mae swm y pren a gynigir i'r farchnad wedi cael sgôr **Gwyrdd**. Roeddem wedi rhagori ar ein targed ar gyfer Chwarter 1 o gynig 190,000m³ i'r farchnad. Fodd bynnag, mae'r swm cyffredinol disgwyledig ar ddiwedd y flwyddyn yn Oren, a hynny oherwydd ansicrwydd ynghylch y farchnad a'r potensial i ddirwasgiad leihau'r galw.

Ymateb i'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac unrhyw gyfleoedd a allai ddod yn sgil hynny

- Mae'r maes gwaith hwn wedi cael sgôr **Gwyrdd** ar gyfer darparu cyngor ac arweiniad ac ar gyfer parodrwydd yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd, fel ei gilydd. Er hynny, nid ydym yn hunanfodlon, ac mae gwaith paratoi yn parhau, wrth i ni weithio gyda Llywodraeth Cymru.
11. Rydym hefyd yn datblygu mesur i fonitro ein hymateb ni, y sefydliad, i Covid-19, a byddwn yn adrodd ar hyn yn y chwarter nesaf.
 12. Bydd y Prif Weithredwr yn darparu crynodeb llafar o'r cyflawniadau yng nghyfarfod y Bwrdd, a bydd aelodau o'r Tîm Gweithredol ar gael i ateb cwestiynau.

Argymhelliad

13. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer chwarter un, a chytuno arno, cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Risgiau Allweddol

14. Os nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir yn adlewyrchu'r cynnydd tuag at gyflawni'r Cynllun Busnes yn fanwl gywir, yna ni fydd y Bwrdd yn gallu cyflawni ei rôl o graffu ar gyflawniad CNC.

Y Camau Nesaf

15. Bydd yr adroddiad ar berfformiad yn cael ei gyflwyno i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a'i gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
16. Mae'r Cynllun Busnes a'r Dangosfwrdd ar gyfer Ch2 ymlaen wedi cael ei diweddaru o ganlyniad i Covid-19, ac mae'n destun papur ar wahân.

Goblygiadau Ariannol

17. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol o ran darparu'r adroddiad ar berfformiad ei hun; fodd bynnag, mae rhan o'n hadolygiad chwarterol yn amlwg yn ystyried dyraniad ein hadnoddau, ac felly mae yna gyswllt agos rhwng y papurau cyllid a'r papurau perfformiad.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

18. Mae'r asesiad perthnasol o'r effaith ar gydraddoldeb yn cwmpasu ein Datganiad Llesiant, ein Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21 a'n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022, a chafodd ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2020.

Mynegai o'r Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosfwrdd Chwarter 1

Atodiad 2 – Adroddiad ar y Rhaglen Cwsmeriaid